Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bro Dysynni

Ysgol Craig y Deryn
Llanegryn
Tywyn
Gwynedd
LL36 9SG

Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Bro Dysynni

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Bro Dysynni |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Bethan Jones |
| Person â gofal | Leanne Lawton, Katie Edwards |
| Nifer y lleoedd | 15 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | Diwrnod 1 – 4<br>Diwrnod 2 - 5 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | Diwrnod 1 – 1<br>Diwrnod 2 - 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00-13:00 Dydd Llun-Dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/05/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/05/2026 |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach system o gwblhau arfarniadau yn rheolaidd i sicrhau cyfleoedd i drafod perfformiad a datblygiad proffesiynol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae bron bob un plentyn yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn gwneud dewisiadau ystyrlon gan gymryd rheolaeth lawn dros eu chwarae. Maent yn symud yn rhydd o amgylch yr ardaloedd, gan ddewis adnoddau yn annibynnol ac ymestyn eu chwarae'n greadigol. Maent yn defnyddio'r ddarpariaeth yn fedrus iawn, gan wneud penderfyniadau clir am ble, gyda phwy a sut i chwarae. Mae'r plant yn rhannu syniadau yn naturiol, gan ofyn am adnoddau penodol. Er enghraifft, maent yn holi am chwistrell a thybiau er mwyn ymestyn eu chwarae synhwyraidd gyda hylif. Maent yn gwybod y caiff eu dewisiadau eu parchu os nad ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgaredd penodol. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad cryf iawn o hunaniaeth ymysg y plant

Mae'r plant yn teimlo'n hynod ddiogel a hapus yn y lleoliad. Maent yn ymgartrefu'n gyflym ar ddechrau'r sesiwn ac mae bron pob un plentyn yn ymgymryd ag arferion dyddiol yn hyderus. Mae'r plant yn gwybod bod eu anghenion emosiynol unigol yn cael eu diwallu'n arbennig o dda. O ganlyniad, maent yn datblygu hyder personol cryf iawn. Maent yn derbyn cymorth effeithiol i ymateb i'w teimladau l, gan ddefnyddio symbolau a chymeriadau lliw i ddisgrifio sut maent yn teimlo ar wahanol adegau.

Mae rhyngweithiadau plant yn adlewyrchu lefel uchel o gydweithio, parch ac empathi. Mae bron bob un plentyn yn cyd-chwarae'n llwyddiannus ac yn rhannu adnoddau'n naturiol, gan aros yn amyneddgar am eu tro. Maent yn sgwrsio'n gymdeithasol gyda'u ffrindiau, ac yn estyn allan at eraill i rannu profiadau. Er enghraifft, maent yn gwahodd ffrindiau i ymuno mewn gweithgaredd grefft i greu blodau papur, ac yn rhannu eu llwyddiannau'n falch gydag ymarferwyr. Mae ychydig o blant yn defnyddio symudiadau, synau ac ystumiau i gyfathrebu, ac yn gwybod bod ymarferwyr yn ymateb i'r hyn maent yn ei gyfathrebu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn egnïol iawn ac yn archwilio a datblygu syniadau sy'n seiliedig ar eu diddordebau. Maent yn dyfalbarhau i ymestyn gweithgareddau gan ddatblygu sgiliau datrys problemau cryf. Er enghraifft, maent yn dangos gwytnwch wrth ddefnyddio adnoddau gwahanol i lenwi cynhwysyddion yn llwyddiannus yn y twba dŵr, neu offer pinsio bychan i gwblhau tasgau manwl.

Mae bron bob un plentyn yn datblygu lefel uchel o annibyniaeth yn unol a'u hoedran a'u cam datblygiad. Maent yn arddangos hyder gwirioneddol wrth reoli agweddau o'r drefn ddyddiol. Maent yn cyflawni tasgau hunan-ofal yn effeithiol, gan gynnwys defnyddio'r toiled a sychu trwyn, ac yn mwynhau cyfleoedd i dorri ffrwythau amser byrbryd. Mae'r plant yn ymdrin â heriau yn hyderus ond yn gyfforddus i ofyn am gymorth pan fo angen. Yn ogystal, maent yn mwynhau cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at dasgau dyddiol i helpu

ymarferwyr a'u ffrindiau. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb yn hynod effeithiol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n hynod effeithiol i sicrhau diogelwch, iechyd a lles plant. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o bolisïau a gweithdrefnau diogelu ac yn eu gweithredu'n gyson, gyda hyfforddiant perthnasol cyfredol yn cefnogi arfer gadarn. Mae'r ymarferwyr yn pwysleisio arferion hylendid yn drwyadl, gan gynnwys glanhau arwynebau yn rheolaidd. Maent yn gwisgo cyfarpar addas ac yn cynnal urddas plant wrth newid clytiau. Mae'r ymarferwyr hefyd yn wyliadwrus ac yn fanwl wrth weithio fel tîm i asesu goruchwyliaeth briodol. Maent yn cynllunio a chyfathrebu'n ofalus wrth i blant chwarae mewn ardaloedd gwahanol, yn enwedig ar offer dringo neu weithgaredd awyr agored. Mae systemau cofnodi ar gyfer presenoldeb, damweiniau ac alergeddau yn drefnus ac yn fanwl. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu'n brydlon i gynnal arferion drwy gryfhau trefniadau cofnodi a sicrhau diogelu cadarn a chynhwysfawr. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau gyda sensitifrwydd eithriadol, gan feithrin amgylchedd tawel, parchus a chynnes iawn. Maent yn gosod esiampl ragorol drwy ddefnyddio iaith gwrtais a chefnogol ac yn dangos parch tuag at eu gilydd a phob plentyn yn eu gofal. Mae canmoliaeth ac anogaeth yn cael eu defnyddio'n fedrus iawn gan ymarferwyr i godi hyder plant. Er enghraifft, maent yn canmol y plant am ymdrechu i ddatblygu eu medrau wrth greu marciau a dechrau creu llythrennau'r wyddor. Mae'r ymarferwyr yn hybu ymddygiad cadarnhaol drwy rannu sticeri ac egluro achos ac effaith yn glir os yw plant yn wynebu heriau wrth gydweithio.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i gynllunio profiadau dysgu ystyrlon sy'n diwallu anghenion unigol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg ac yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhieni i gryfhau partneriaethau a chefnogi darpariaeth gyson. Maent yn sicrhau bod cynlluniau yn hyblyg ac yn ymatebol, gan adeiladu ar ddiddordebau'r plant i greu cyfleoedd dysgu cyfoethog. Er enghraifft, maent yn datblygu gweithgareddau yn dilyn diddordeb mewn gwenyn yn yr ardal naturiol. Mae ymarferwyr yn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn, gyda strategaethau penodol ar gyfer unigolion. Maent yn cyd weithio'n effeithiol gydag asiantaethau proffesiynol i sicrhau cynnydd cadarn a chynhwysol i'r plant.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae’r ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn iawn o ddatblygiad plant. Maent yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan gynllunio profiadau chwarae a dysgu o ansawdd uchel sy’n datblygu pob agwedd ar eu medrau. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o’r holl blant a maent yn deall eu hanghenion yn drylwyr. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn ymgysylltu’n llwyr am gyfnodau estynedig ac yn gwneud cynnydd cadarn iawn yn eu dysgu.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio amrediad rhagorol o gyfleoedd i’r plant ddysgu am eu cymuned a’u cynefin lleol. Maent yn mynd ar daith wythnosol ar y bws gan ymweld â’r choedwig leol, er mwyn i’r plant fwynhau archwilio byd natur yn ystyrlon yn yr awyr agored.

Mae’r ymarferwyr yn hynod effeithiol yn y ffordd maent yn gofyn cwestiynau pen agored ac yn rhoi arweiniad i’r plant yn hytrach na darparu atebion parod. Maent yn fodelau rôl rhagorol, gan fodelu ymddygiad yn effeithiol iawn, a gosod disgwyliadau uchel o ran medrau cymdeithasol y plant. Maent yn atgoffa’r plant yn gyson o sut i feithrin perthynas cadarnhaol a sut i fod yn ffrind da.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau cyfathrebu a rhifedd y plant mewn ffordd naturiol. Er enghraifft, mae cyfleoedd cyfoethog i drafod rhif a marcio wrth gymryd archeb yn y caffi tu allan. Mae’r ymarferwyr yn modelu patrymau iaith yn dda iawn. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i blant glywed geirfa a phatrymau safonol y Gymraeg drwy sgwrsio a chanu. O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llafar o oedran cynnar. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau datrys problemau a chyfathrebu'r plant yn arbennig. Er enghraifft maent yn eu hannog i greu rhwystr allan o flociau ar gyfer y marblis neu gymysgu lliwiau wrth baentio.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyfoethog i’r plant ddatblygu sgiliau corfforol. Er enghraifft, maent yn eu annog i daflu pêl i deiar neu fwced o bellter. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i’r plant ddatblygu eu medrau digidol. Er enghraifft maent yn darparu synhwyrydd metel i’r plant edrych am drysor a ffonau ffug er mwyn iddynt gael sgyrsiau gyda’u teuluoedd.

Mae’r ymarferwyr yn casglu gwybodaeth buddiol gan rieni am eu plant cyn iddynt gychwyn yn y lleoliad. Maent yn arsylwi ar gynnydd plant yn fanwl ac effeithiol ac yn defnyddio systemau asesu cynhwysfawr i lywio camau nesaf y dysgu. Mae ymarferwyr yn adolygu datblygiad y plant yn rheolaidd ac yn trafod eu cynnydd yn wythnosol i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn adnabod anghenion a diddordebau’r plant yn drylwyr iawn.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau darpariaeth effeithiol a thrylwyr ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, moesol a diwylliannol y plant. Maent yn annog y plant i ddatblygu caredigrwydd tuag at ei gilydd yn ystod eu holl weithgaredd.

### Yr amgylchedd: Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch effeithiol drwy weithredu trefniadau cadarn a thrylwyr iawn. Mae mynediad i'r lleoliad wedi ei reoli'n ofalus, gyda drysau allanol wedi'u cloi. Mae'r trefniadau ar gyfer ymwelwyr yn glir a chadarn. Mae arweinwyr yn cynnal gweithdrefnau argyfwng clir, ac yn trefnu cyfleoedd rheolaidd i'w ymarfer. Mae'r arweinwyr yn gweithredu asesiadau risg cynhwysfawr. Maent yn eu hadolygu'n rheolaidd, gan nodi peryglon yn fanwl a gweithredu camau lliniaru ar draws yr amgylchedd tu mewn ac allanol yn ddyddiol. Maent yn cynnal safonau uchel o lanweithdra a diogelwch. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn hyrwyddo datblygiad drwy ganiatáu i blant gymryd risgiau rhesymol mewn ffordd ddiogel a phwrpasol. Er enghraifft, maent yn annog plant i ddringo a neidio o uchder a chyfri i lawr o dri pan fo angen cefnogaeth gan ymarferydd.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd croesawgar, ysbrydoledig sy'n cefnogi dysgu ac ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn cynnig ardaloedd hyblyg sy'n cyfuno profiadau ymarferol o fewn cyd-destunau ystyrlon. Mae'r arweinwyr yn cynllunio'r amgylchedd yn ddychmygus i gynnig cyfleoedd dysgu cyfoethog ar draws pob maes, gyda adnoddau a theganau o ansawdd uchel. Maent yn amrywio cyfleoedd deniadol yn yr ardaloedd tu mewn a thu allan i ddarparu chwarae creadigol, synhwyraidd a chorfforol. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau chwarae ar y beics ac yn ymarfer aros ac edrych am bobl ar y croesffordd cyn symud ymlaen ar hyd y ffordd. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o lyfrau, rhifau a llythrennau yn yr holl ardaloedd i annog plant i wneud cysylltiadau yn eu dysgu drwy gyfleoedd chwarae.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau amrediad eithriadol o adnoddau a chyfarpar sy'n cefnogi ymgysylltiad plant yn llwyddiannus iawn. Mae'r adnoddau'n amrywiol, yn hygyrch ac wedi'u trefnu'n fwriadol i annog annibyniaeth a chwilfrydedd plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau fod gan blant fynediad hawdd at yr holl adnoddau, gan gynnwys adnoddau naturiol fel ac offer byd go iawn. Mae'r arweinwyr yn darparu ystod eang o adnoddau sy'n hyrwyddo amrywiaeth a thegwch, gan gyfoethogi profiadau'r plant yn sylweddol. Er enghraifft, mae amrediad o adnoddau sy'n adlewyrchu diwylliannau gwahanol wedi eu hymgorffori ar draws yr ardaloedd chwarae. Mae'r ymarferwyr yn creu arddangosfeydd effeithiol o waith y plant. Maent yn eu defnyddio'n fedrus i ddathlu cyflawniadau ac i gefnogi dysgu parhaus. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn a rhannu llwyddiannau pob unigolyn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae’r arweinwyr wedi llwyddo i greu ethos cryf iawn o deulu lle mae pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi’n llawn. Maent yn sicrhau eu bod yn darparu gofal o safon uchel ac yn cynnig cyfleoedd dysgu a datblygu gwerthfawr i blant. Mae cofnodion yn glir ac wedi’u cadw’n ddiogel, gyda gwybodaeth a dogfennau’n gyfredol a hygyrch. Mae’r arweinwyr yn brofiadol iawn ac yn cydweithio’n hynod effeithiol fel tîm, gan osod disgwyliadau uchel iawn ar gyfer eu hunain a’r ymarferwyr.

Mae ‘r arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn ac maent wedi datblygu systemau trylwyr ac effeithiol iawn ar gyfer sefydlu ymarferwyr newydd. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cael hyfforddiant o ansawdd uchel er mwyn diwallu eu hanghenion. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn wybodus iawn am eu dyletswyddau a’u rolau ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant pawb yn y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn hapus yn eu gwaith, ac yn gwerthfawrogi y ffordd y mae pawb yn cydweithio. Er hyn, mae angen datblygu ymhellach systemau ar gyfer cwblhau arfarniadau yn rheolaidd i sicrhau cyfleoedd cyson a phwrpasol i drafod perfformiad a datblygiad ymarferwyr.

Mae’r arweinwyr yn cynnal systemau cryf a chynaliadwy sy’n eu galluogi i ddatblygu gwaith y lleoliad yn llwyddiannus a chyson. Maent yn adolygu gweithdrefnau’n rheolaidd er mwyn gwerthuso’r effaith ar brofiadau a chynnydd y plant. Mae’r gweithdrefnau hyn yn cynnwys yr holl rhanddeiliaid ac yn arwain at gynllun datblygu sy’n cynnwys camau gweithredu pendant, ynghyd â cherrig milltir bwrpasol er mwyn mesur cynnydd.

Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd strategol o’u cyllid a grantiau penodol. Er enghraifft, buddsoddwyd cyllid i archebu adnoddau a dodrefn safonol i greu amgylchedd ddysgu deniadol tu mewn a thu allan.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau fod y lleoliad yn elwa ar gysylltiadau agos â’r gymuned leol. Maent yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr ar gyfer y plant, gan gynnwys trefnu ymwelwyr i’r lleoliad ac ymweliadau wythnosol allan yn y gymuned. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau â’r llyfrgell leol er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o fwynhau llyfrau a storïau. O ganlyniad, mae medrau darllen cynnar y plant yn datblygu’n effeithiol iawn.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr gysylltiadau cryf â rhieni sy’n gwerthfawrogi’r wybodaeth gynhwysfawr maent yn ei derbyn am brofiadau dysgu a chynnydd eu plant. Mae arweinwyr hefyd yn gweithio’n effeithiol gyda’r ysgol leol i gynorthwyo’r broses bontio ac yn cydweithio’n agos ag athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2026